325

# *CAN NEWYDD*

SEF CWYN

# LEWIS REES,

A'I

# Chwaer Ann,

Cyn cychwyn eu Halltudiaeth i phordd o Lundain, rhai a Alltudiwyd o herwydd eu lladrad o Ddolgellau, Gorphenaf 25, 1854

Cenir ar "*Belisle March.*"

Yn awr gyfeillion o un galon,
Yn gyson nos a dydd,
De'wch i wrando arnai'n cwyno
Heb flino yn ddi-gudd;
Clywch fy mhrofiad mewn caethiwed,
Yr y'm mewn galar dwys,
Yn hiraethu a galaru
Am Gymru landeg lwys,
Am Gymru mae fy mryd,
A'i harddwch oll i gyd,
O na ddeuwn eto iddi
O'm holl drueni drud,
Yr y'm ni yma'n anniddanol,
Yn gwneud annynol nad;
Eto'n methu codi i fynu,
I ganfod fy hen wlad,
Mae'n galed arnom ni
Rwy'n dyweud y gwir i chwi,
Digalon hynod bob diwrnod,
Yw i fy chwaer a fi,
Heb un gobaith gwaredigaeth
Dd'od o'r galedwaith hwn,
Hyd nes talu'r ffyrling eitha'
A'r olaf oll mi wn.

OC35 73 1857

Dyma ddiwrnod caled hynod,
Ar galon Lewis Rees,
A'i chwaer Nancy, aeth mor sydyn
Trwy dori deddfau Crist,
Heb un gobaith gwaredigaeth,
Taith hir faith ydyw hon,
O mor galed ydyw clywed
Y fath deimlad dan ein bron,
Mae lle yr y'm ni'n awr,
A'r deddfau bach a mawr,
Ni chawn weled chwaith na chlywed
Gan neb am doriad gwawr;
Rhaid yw aros yn yr hir-nos,
A myn'd i wlad y Negro du,
Dan gaethiwed, heb gael clywed,
Ymwared mwy i ni.
Yn dyoddef gwaethaf gwg,
Yn mysg y tarth a'r mwg,
Y diffyg gwynt mewn lleoedd enbyd
Llawn sulphur drewllyd drwg.
Os cawn ninau dd'od oddiyma,
Mi ganwn yn iach, mi wn,
Am gael yn wiwlon dd'od o waelod
Fath hynod le a hwn,

Fe aeth rhai o'n blaenau ninau,
O dre' Caernarfon lon,
Mon a Dinbych, a Threfaldwyn,
Dros for a'i eirwin don,
A swydd Feirion i'w halltudio,
Rwy'n cofio am y dydd,
O Feirionydd hardd yr olwg,
Daeth llu a'u bronau'n brudd!
Fe'n gyrir dros y mor
I blith y duon gor,
I weithio'n galed mewn caethiwed,
Yn slafiaid gwres ac o'r,
Dyma sydd yn tori'n c'lonau,
Yn gyson ddydd a nos,
Ein bod wedi gadael Cymru,
A gwadu Crist a'i gro's,
I blith y egroes Ndu,
I gwyno yr awn ni,
On a chawn weled gwlad Meirionydd,

327



Cyn i ni eu gweled hi,
Rwy'n meddwl am y bryniau,
Ag am hen gyrau ngwlad,
Tre' Dolgellau a Thrawsfynydd,
Ag hefyd hen dy nhad.

O mor hyfryd oedd fy mywyd,
Mewn hawddfyd gyd a chwi,
'Nawr yn cwyno a gofidio
Wrth adael bechgyn ffri,
Wedi colli fy nghymeriad,
Rwy'n awr mewn teimlad dwys,
Yn hiraethu a galaru,
Am Gymru landeg lwys,
O na chawn wel'd fy ngwlad,
Ac anwyl gartref mad,
A'm cym'dogion o un galon,
Fu'n ffyddlon a di-frad,
A'i bras ddolydd braf a'i bronydd,
Fu mor ddedwndd gynt i mi,
Yn gwisgo'i harddwch a'i holl degwch,
Hawddgarwch fel y lli;
Gwlad helaeth ydyw hon,
Gwlad hyfryd, hardd a' llon,
Gwlad na chlywais i mewn hanes,
Am gynhes un fel hon,
Gwlad sy'n magu ei holl deulu,
Yn fwyngu yn mhob man,
Gwlad sy'n rhoddi lluniaeth hyfryd,
Heb adfyd byth i'w rhan.

Deffrowch yn ufudd bawb trwy 'gwl-
A'r Trefydd yn ddi-drai, (edydd,
Gweddiwch beunydd am wir grefydd,
Eich llywydd i'ch gwellau,
Cyhoeddi'n eglur mae'r ysgrythyr,
Yn gywir iawn i ni,
Daw ar yr annuwiolion creulon,
Echryslon boen a chri,
Yn awr cymerwch ni
Yn rhybudd llawn i chwi,
I beidio dylyn llwybrau'r gelyn,—
'Run modd y darfu ni,
Sy'n tynu lluoedd dros y moroedd,

Yn gyhoedd ddydd a nos,
Nes eu gyru i warthryddu,
Eu teulu yn mhob oes,
Mae'n galed ar bob gwr,
Sy'n magu plant yn siwr,
Wedi hyny yn eu gweled,
Yn mynod dros y dwr,
Pan yn gweled ac yn clywed,
Maent oll dan deimlad dwys,
Oll yn gwaeddi am eu claddu,
Cyn hyny tan y gwys.

Wel 'n awr 'rwy'n uchel roddi ffarwel,
Yn dawel i fy ngwlad,
A'm cym'dogion oll yn unol,
Ac hefyd hen dy fy nhad,
Ni fydd y mor a'i donau hagar,
Dim galar mawr i ni,
At fod yno mewn caethiwed,
Yn ngwlad y Negroes du;
Yn awr chwi fechgyn llon,
Trwy Gymru anwyl gron:
O gweddiwch, a myfyriwch,
Na bo i chwi groesi'r don;
Duw o'i ras a roddo rwydd deb
I'ch cadw yn eich gwlad,
Ei drugaredd a'i wirionedd,
Sy'n beraidd er lleshad,
Ffarwel i Gymru lân
A'i deiliaid fawr a mân,
O gweddiwch a myfyriwch,
Darllenwch hyn o gân;
Byddwch berffaith trwy bob trafferth,
A phrydferth a di sen,
Yw dymuniad dwys ein henaid,
Mewn teimlad byth. Amen.

Canodd y bardd y geiriau uchod oddi ar lythyr a dderbyniodd oddiwrth LEWIS REES, o Lundain.

**John Jones, Argraffydd, Llanrwst.**